

TAR CYNRADD

Teitl yr Aseiniad:

Gwerthusiad beirniadol a nodi'r camau dysgu ac addysgu nesaf gan ganolbwyntio ar astudiaeth achos am ddysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, wedi'i seilio ar ddigwyddiad critigol a arsylwyd.

Modwl:

Y dysgwr: pwy ydw i'n ei addysgu?

Cod y modiwl:

ECAD6007C

Enw'r Myfyriwr:

MISS KRISTIA HARRHY

Rhif Myfyriwr:

1102048

Dyddiad Cyflwyno:

28/10/2021

Dyddiad Cau:

29/10/2021

Cyflwyniad

“Getting an education is like climbing a mountain” (Willis, 2014)

Awgryma ymchwil bod y syniad o addysg a datblygiad dynol fel mynydd i’w goresgyn, neu fel ysgol i’w ddringo, ac yng ngolwg llawer o addysgwyr, daw llwyddiant o’r hyn y fedrwn ei fesur a’i feincnodi yn unig. Llwyddiant yw’r cynnyrch a data terfynol (Willis, 2014).

Gallwn weld yr un meddylfryd yng ngeiriau diweddar y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams AC:

“Cenhadaeth ein cenedl yw codi safonau, lleihau’r bwlch cyrhaeddiad a chyflwyno system addysg sy’n destun hyder a balchder cenedlaethol.” (Llywodraeth Cymru, 2017, t.3)

Er bod y cysyniad yma’n bwysig i ddatblygiad academaidd plentyn, gall y ffocws cul hwn ar ddata a chyrhaeddiad amharu ar ddatblygiad naturiol unigolyn. Y gwir amdani yw, daw llwyddiant, dysgu a datblygiad dynol o gyfres o ddatblygiadau ymddygiad, sgiliau, meddylfryd, perthynas ac amgylchedd plentyn (Bronfenbrenner, 1979 a nodwyd yn Christensen, 2016). Gallwn ei ystyried fel proses ‘diwylliannol’, lle’r ydym yn dysgu o’n gilydd (Rogoff, 2003).

Serch hynny, anghytuna rhai fod datblygiad dynol yn broses syml. Nid oes yna llinell amser pendant ar ddysgu a datblygiad plentyn, gan fod cyflymder a chynnydd y datblygiad hwn yn wahanol i bawb (Holt, 1967). Noda John Holt y dylwn adael datblygiad plentyn i fod yn esblygiad naturiol, ac i gymryd cam yn ôl, er mwyn gweld y datblygiad hwn yn blodeuo:

‘A child’s understanding of the world is uncertain and tentative. If we question him too much or too sharply, we are more likely to weaken that understanding than strengthen it. His understanding will grow faster if we can make ourselves have faith in it and leave it alone.’ (Holt, 1967, t.65)

Cytuna Lever â geiriau Holt, yn nodi bod plant yn medru datblygu ar eu sgiliau, gan ddatgan nad yw taith ddysgu yn un llinol:

‘Learning is not a linear process. Children can (and do) access higher thinking skills.’ (Lever, 2014, t.20)

O'r eiliad y mae plant yn cael eu geni nes iddynt dyfu a heneiddio, y mae dysgu yn chwarae rôl bwysig drwy gydol eu bywydau. Mae llwyddiant yn dod o gyfres o brofiadau ble mae modd adeiladu a chymhwyso gwybodaeth newydd, dysgu o'n camgymeriadau ac addasu, bod yn barod i fethu a dyfalbarhau, ac yn fwy na dim, adfyfyrio ar ein harferion ein hunain. Fodd bynnag, gallwn gasglu fod taith ddysgu plentyn yn un hir a chymhleth. (Lever, 2014)

Dros y ddegawd diwethaf, trawsnewidiwyd y sector addysg yn gyfangwbl. Boed yn delio gyda mentrau rhyngwladol neu ymgyfarwyddo ag amcanion strategol, mae athrawon ac addysgwyr o hyd wedi gorfod delio â phwysau trwm diwygiadau cwricwlaidd yng Nghymru:

The teaching profession is an occupation with a high prevalence of work-related stress. This may lead to sustained physical and mental health problems in teachers. It can also negatively affect the health, wellbeing and educational attainment of children...
(Naghieh et al., 2015)

Er bod yna lawer o ffactorau, y tu allan i gatiâu'r ysgol, sy'n gallu effeithio ar ddatblygiad plentyn, athrawon sy'n hyderus ac iachus yn feddyliol, yw'r rhagfynegydd gorau o ddatblygiad disgybl mewn ysgol. (Hattie, 2013)

Er mwyn mynd i'r afael ag ansawdd ein system addysg yng Nghymru, yn 2014 lluniwyd yr adroddiad: *Improving Schools in Wales: An OECD Perspective* (OECD, 2014). Dyma gynnig strategol cynhwysfawr ar Gymru a'n system ysgolion, yn cyflwyno trosolwg o'n system addysg, gan osod sail i ddatblygu cwricwlwm newydd i'w weithredu mewn ysgolion ledled Cymru. (ibid, 2014)

Yn adeiladu ar adolygiad yr OECD (2014) ac adroddiadau ymchwil eraill (Estyn, 2014), cyflwynodd Llywodraeth Cymru eu cynllun gwella, *Cymwys am Oes: Cynllun Gwella Addysg i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2014). Amlinellwyd y camau y byddai Llywodraeth Cymru yn eu cymryd dros y pum mlynedd nesaf er mwyn gwella cyrhaeddiad addysgol disgyblion yng Nghymru.

Erbyn Chwefror 2015, fe gynhaliwyd gan yr Athro Donaldson, adolygiad annibynnol o gwricwlwm cenedlaethol Cymru, *Dyfodol Llwyddiannus* (Donaldson, 2015), er mwyn nodi'r

egwyddorion ar gyfer y cwricwlwm newydd. Arweiniodd hyn at ddiffinio'r pedwar diben ar gyfer system addysgu yng Nghymru. (Donaldson, 2015)

Dros y blynyddoedd nesaf, cafodd y Cwricwlwm newydd ei addasu a'i ddiwygio (Llywodraeth Cymru, 2015), cyn cyflwyno *Cwricwlwm i Gymru* (Llywodraeth Cymru, 2019), gyda'r nod o newid y ffordd y mae plant a phobl ifanc yn dysgu mewn ysgolion ledled Cymru o 2022 ymlaen. (Llywodraeth Cymru, 2020)

Ers 2014, mae momentwm y sector addysg wedi cryfhau. Fel y soniwyd Kirsty Williams yng *Nghynllun Gweithredu 2017-2022* (2017), mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad i godi safonau i bawb. Cyfeiriwyd at gynllun gweithredu Llywodraeth Cymru, *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol* (2017), ble nodwyd eu hamcan strategol i greu'r

'awydd ym mhawb i ddysgu drwy gydol eu bywydau, a'u hysbrydoli i fod y gorau y gallant fod. Os ydym am weld Cymru yn ffynnu, mae angen pobl greadigol, sy'n fedrus iawn ac yn gallu addasu...' (Llywodraeth Cymru, 2017, t.3)

Wrth inni ganolbwyntio ar gyrhaeddiad disgyblion, data a chodi safonau o hyd, mae'n bosib crwydro'n rhy bell o anghenion sylfaenol plentyn, gan anghofio'n aml, fel y nodwyd yn ymchwiliad Roberts-Holmes a Bradbury, ar *Asesiadau Sylfaenol*:

'They are children and they are not robots, not machines, they are children. You don't know what influences they have got from outside, what is going to happen to them...' (Roberts-Holmes a Bradbury, 2016, t.48)

Yn sgil y damcaniaethau sy'n effeithiol ar les, dysgu a datblygiad plant, fy mwriad yn ystod y traethawd hwn yw cynnig gwerthusiad beirniadol ar ddilyn dull gwahaniaethol ac addasol ar lawr y dosbarth, yng nghyd-destun astudiaeth achos am blentyn unigol, a hynny'n seiliedig ar ddigwyddiad critigol a arsylwyd gennyf yn yr ysgol dan sylw.

Drwy gydol y traethawd hwn, wrth adfyfrio ar wersi a arsylwyd yn yr ysgol dan sylw, byddaf yn cyfeirio at yr ysgol, o hyn ymlaen fel Ysgol X, yn unol â chanllawiau moesegol BERA ar gyfer astudiaethau addysgiadol. (BERA, 2018)

Yn ogystal, byddaf yn dileu unrhyw gyfeiriad uniongyrchol at Ysgol X, naill ai cyfeiriad llythrennol at enw'r ysgol, neu'n gyfeiriad a allai rhoi gwybodaeth am leoliad yr ysgol. (ibid, 2014)

Cyd-destun Ysgol X a'r Ystafell Ddosbarth

Ysgol Gynradd Gymraeg sydd yn darparu addysg ar gyfer dysgwyr 3-11 oed yw Ysgol X. Wedi'i lleoli o fewn awdurdod lleol Merthyr Tudful, mae 11.5% o'i disgyblion yn byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. (Fy Ysgol Leol, 2021)

Roedd 471 o ddisgyblion ar y gofrestr yn Medi 2021, a'r rheiny wedi'u rhannu ar draws naw grŵp blwyddyn, o Feithrin 1 i Flwyddyn 6. Mae gan yr ysgol 70 o ddisgyblion eleni, yn eu dosbarth meithrin rhan amser. Mae gan 11.5% o'r disgyblion yr hawl i brydau ysgol am ddim (PYDd), sydd yn is na'r canran cenedlaethol, sef 22.3%. Mae 2.6% o ddisgyblion Ysgol X ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, sydd yn is na chanran yr Awdurdol Lleol, sef 10.1%. (ibid, 2021)

Mae Ysgol X wedi ymrwymo i greu amgylchedd hapus, cefnogol a llewyrchus. Disgrifir yr ysgol fel '*teulu mawr*'. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran eu safonau, eu hymdrech, eu tosturi, eu hystyriaeth, eu parch a'u gonestrwydd. Mae Ysgol X yn dathlu eu treftadaeth, diwylliant a chenedligrwydd, ac yn grymuso eu plant gyda hunan-gred, dyhead a phositifrwydd fel eu bod yn cyflawni ac yn medru llwyddo yn y byd y tu hwnt i gatiâu'r ysgol. (*Prosbectws Ysgol X*, 2020)

Yn ystod y cyfnod byr rwyf wedi mynychu Ysgol X fel rhan o'm cyfnod Pontio PAP1, mae'r ysgol wedi creu argraff gadarnhaol arnaf. Ar fynediad yr ysgol, daw'n amlwg fod yr ethos teuluol wedi gwreiddio ar draws yr holl ysgol. Gwelais furlun calonau a chasgliad o waith disgyblion ar draws waliau'r coridorau ac arddangosfeydd yn y dosbarthiadau i helpu'r dysgu.

Daeth yn amlwg imi'n gyflym fod yr ysgol yn ymfalchio yng ngwaith a natur eu disgyblion. Mae llawer o ddisgyblion yn fwy na parod i dderbyn cyfrifoldebau gan yr athrawon ac mae'r ysgol yn defnyddio system 'bydis' yn effeithiol dros ben. (*Prosbectws Ysgol X*, 2020)

Er bod COVID-19 wedi effeithio rhywfaint ar bresenoldeb yr ysgol, mae'r disgyblion yn parhau i deimlo'n saff a chyfforddus ar dir yr ysgol sy'n dyst i weithlu cadarn yr ysgol. Maent yn gwneud defnydd helaeth hefyd o'r ardaloedd garddio a'r ardal wyllt yn effeithiol er mwyn ymestyn y dysgu ymhellach.

Fel y soniwyd, mae'r cwricwlwm yng Nghymru wedi trawsnewid, i gyd yn y gobaith o helpu plant a phobl ifanc i fod yn fwy hyblyg a'u cymell i barhau i ddysgu sgiliau newydd wrth i'n byd esblygu a newid o'n cwmpas. Canolbwynt Cwricwlwm i Gymru yw paratoi disgyblion ar gyfer eu dyfodol. (Llywodraeth Cymru, 2020)

Fel y cyffyrddais arnynt, fel rhan o baratodau Llywodraeth Cymru I ffurfio Cwricwlwm Newydd yng Nghymru, argymhellodd yr Athro Donaldson (2015) pedwar diben i gefnogi plant a phobl ifanc ar gyfer eu dyfodol. Nod y pedwar diben yw gosod darlun cliriach o gwir pwrpas addysg plant a phobl ifanc, er mwyn i'r plant a phobl ifanc ddatblygu'n:

- 'Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- Cyfranwyr mentrus, creadigol yn barod i chwarae eu rhan yn llawn mewn bywyd a gwaith
- Unigolion iach, hyderus yn barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas
- Ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd'

(Donaldson, G., 2015, t.29-30)

Yn wir, nod y cwricwlwm newydd yw i fod yn gytbwys, yn gynhwysol ac yn heriol, gan gynnig amrywiaeth o brofiadau a chyfleoedd ar gyfer plant a phobl ifanc. (Donaldson, 2015)

Wrth fynychu Ysgol X fel rhan o'm cyfnod Pontio PAP1, cefais gyfle i arsylwi nifer o wersi a oedd yn cydnabod anghenion disgyblion yn wych. Gwelais wersi diddorol a oedd yn hyrwyddo dysgu'r plant. Gwnaeth yr athrawon ymdrech fawr i wneud y defnydd gorau o holl dir yr ysgol, gyda gwersi'n cael eu cynnal yn yr ystafell ddosbarth, y neuadd, yr ardd a'r ardaloedd gwyllt.

Yng ngoleuni'r cwricwlwm newydd (Llywodraeth Cymru, 2020), teimlaf fod cynnal y dysgu yn yr ardaloedd naturiol wedi elwa'r disgyblion yn fawr. Cytuna adroddiad Estyn diweddaraf Ysgol X at hyn, drwy ddatgan bod gwersi yn yr ardaloedd gwyllt yn ennyn diddordeb y disgyblion a'u bod, o ganlyniad, yn cyfrannu'n fentrus ac yn cael eu hysgogi i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol yn trio pethau newydd mewn ardal saff, heb boeni am wneud pethau'n anghywir (Estyn, 2016).

Er hynny, nid oedd pob plentyn ym rhannu'r barn yma tuag at ddysgu yn ystod y gwersi a arsylwyd. Arhosodd un digwyddiad critigol mewn gwers mathemateg yn fy nghof, a'r digwyddiad hwnnw'n ffocws ar gyfer fy ngwerthusiad beirniadol.

Ers amser hir, defnyddiwyd y termau *gwahaniaethu* a *thasgau gwahaniaethol* fel ffordd o ddangos ymwybyddiaeth athrawon o gallu eu disgyblion ar lawr yr ystafell ddosbarth.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae gwahaniaethu wedi chwarae rôl bwysig mewn 'addysgu effeithiol' a chwricwlwm sy'n ysgogi dysgu. (Tomlinson, 1999)

Yn fwy diweddar, dydy 'gwahaniaethu' ddim wedi derbyn yr un clod, a hynny oherwydd bod llawer o athrawon yn camddehongli pwrpas *gwahaniaethu* drwy feddwl mai 'creu nifer o adnoddau' yw ei phwrpas, neu roi 'tasgau ychwanegol' i blant er mwyn eu 'herio', yn hytrach na gwneud pethau sydd yn gallu annog plant i wneud cynnydd, a chyrraedd eu potensial nhw. (Hattie, 2013)

Noda Tomlinson (1999) nad oes un ffordd cywir o greu ystafell ddosbarth gwahaniaethol; mae athrawon yn llunio amgylchedd dysgu ysgogol mewn ffyrdd sy'n cyd-fynd i'w dulliau addysgu nhw.

Gallwn ddweud, felly, bod gwahaniaethu pur yn gymysgedd o holl dechnegau a strategaethau athrawon i wneud y dysgu'n bersonol i'r disgybl.

Er hynny, mewn ystafelloedd dosbarth ledled Cymru, yn draddodiadol, mae'r athro fel arfer yn cyflwyno sesiynau i bawb ar yr un pryd o flaen y dosbarth. Gelwir hyn yn gyfarwyddyd penodol neu gyfarwyddyd uniongyrchol (Rosenshine, 2012).

Dim ond ychydig o addasiadau sy'n cael ei gwneud ar gyfer gwahaniaethau unigol plant wrth ddilyn y dull addysgu yma. Credir yn aml mai dyma'r ffordd fwyaf 'effeithlon' o addysgu grŵp mawr o blant, gan ei bod yn cynnig dull systematig o addysgu gyda phwyslais ar gyflwyno:

'new material in small steps with student practice after each step... Only present small amounts of new material at any time, and then assist students as they practice this material.'
(Rosenshine, 2012, t.13)

Dyma'r dull a welais yn cael ei defnyddio yn y wers dan sylw (gweler 'Atodiadau', Cofnod 2). Yn dilyn amser egwyl, fe fynychais wers CA2, Blwyddyn 6. Dosbarth gallu cymysg/uchel oedd hi gyda chymysgedd o tua tri deg o fechgyn a merched.

Nododd yr athro bod yna lawer o ddisgyblion MATH yn y dosbarth oedd yn cael eu 'targedu i gyrraedd eu lefelau targed diwedd blwyddyn' (Athro A, Ysgol X, 2021). Roedd y wers yn uchelgeisiol i'r plant, gyda ffocws glir yn cael ei rhoi ar Y Pedwar Diben (Donaldson, 2015), ble'r oedd y tasgau yn cyfrannu tuag at ddatblygu

- Cyfranwyr mentrus, creadigol yn barod i chwarae eu rhan yn llawn mewn bywyd a gwaith;
- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes

(Donaldson, G., 2015, t.29-30)

Mwynheuais y wers gan fod y disgyblion yn ymddangos yn hapus ac yn hyderus yn cwblhau'r gwaith. Roedd yr athro yn gwneud y mwyaf o'r ystafell ddosbarth, gyda grwpiau yn cyflawni'r dasg ddechreuol ar 'gwerth lle' o gwmpas yr ystafell.

Er hyn, cyflwyno pwerbwynt o flaen y dosbarth oedd yr athro'n ei gwneud am rhan fwyaf o'r wers, gan eithrio'r dasg ddechreuol, gyda disgyblion yn eistedd yn dawel, yn gweithio'n annibynnol y dasg a ymddangosodd ar y sgrin fawr. Roedd y rhan fwyaf o'r disgyblion wedi hen arfer â'r ffordd yma o weithio, gyda'r athro'n cyflwyno testun ar y sgrin fawr, ac yna'r plant yn cwblhau tasgau yn eu llyfrau.

Adleisiodd dull addysgu'r athro geiriau Rosenshine (2012), ble roedd y plant yn derbyn yr un cyfarwyddiadau mewn camau bach, cyn iddyn nhw fynd ati i gwblhau tasgau yn unigol.

Serch hynny, mae ymchwil yn dangos nid yw pob disgybl yn ymateb yn dda i'r un cyfarwyddiadau. Mae rhai plant yn gallu datrys problemau ar eu pen eu hunain, ble mae eraill yn gorfod derbyn cymorth ychwanegol. Mae'r ffordd y mae plentyn yn llwyddo dysgu yn gallu amrywio o ddydd, yn dibynnu ar eu hiechyd meddwl, eu stad emosiynol a'u cyflwr corfforol. Mae profiadau niweidiol mewn plentyndod (ACEs), fel nodwyd gan Bellis et al. (2016) hefyd yn gallu arwain at effaith negyddol ar ddysgu a datblygiad plentyn.

Roedd un disgybl yn y wers dan sylw yn cael trafferth ar gwblhau'r dasg unigol ar ben ei hun yn annibynnol. Arhosodd yn dawel am ddeg munud heb ysgrifennu llawer yn ei lyfr. Ar ôl deg munud, roedd yr athro'n dechrau cylchu'r dosbarth drwy sylwi nad oedd y disgybl wedi cwblhau'r cwestiwn yn llawn. Yn hytrach na gadael y disgybl i boeni, cafodd ei glodfori am yr hyn a gwblhaodd, gan ofyn i'r disgybl siarad ag aelodau'r bwrdd i drafod sut aeth ati i gwblhau'r dasg, cyn dod â'r wers i stop er mwyn i bawb cael cyfle i drafod y broblem fathemategol ar lafar (gweler Atodiadau, Cofnod 2).

Daeth i'r amlwg bod y disgybl wedi deall y cwestiwn a sut i'w ateb yn gywir, ond beth wnaeth fy nharo oedd y disgybl yn datgelu nad oedd am nodi'r ateb yn ei lyfr gan ei fod yn 'poeni cael yr ateb yn anghywir', a bydd aelodau ei bwrdd yn 'chwerthin' am ei ben gan eu bod nhw wedi 'rhuthro drwy'r dasg mor hawdd'.

The sense of needing to win and beat those around us typically starts early, with parents, teachers and coaches all extolling the virtues of winning throughout childhood and adolescence. We're rewarded and praised when we do well in tests and exams. Those who come top of the class are given awards in assembly. (Bishop, 2021)

Mae Bishop yn crybwyll yr union broblem a godais ar gychwyn fy ymchwiliad, sef bod yna gormod o bwyslais ar ein cenhadaeth i godi safonau (Llywodraeth Cymru, 2017). Mae Ysgol X yn ymfalchio yn eu nodweddion cystadleuol, ble mae'r plant yn mwynhau bod yn rhan o'r elfen gystadlu. Gwelwn y cystadlu yma, gan y plant, naill ai drwy ennill pwyntiau 'Classcharts' a thystysgrifau wythnosol, cystadlu yn erbyn ei gilydd yn y dosbarth i fod y cyflymaf yn cwblhau tasgau, cwblhau y nifer fwyaf o dasgau 'Teithio' (tasgau annibynnol, ychwanegol ar gael i hybu'r dysgu), cystadlu i fod yn bencampwr Cymraeg yr wythnos ayb.

Yn fy marn i, teimlaf y byddai'r wers dan sylw wedi buddio gyda'r athro yn dilyn dull gwahaniaethol ar gyfer y dosbarth. Fel y noda Tomlinson (1999),

"In differentiated classrooms, teachers ensure that a student competes against himself as he grows and develops more than he competes against other students." (Tomlinson, 1999, t.2)

Drwy osod ffocws ar daith ddysgu unigol plant y dosbarth, byddai modd cynnal gwersi gwahaniaethol, ble mae gan bob un disgybl cyfle i wneud cynnydd. Noda Parsonson (2012) fod cynnal dosbarth gwahaniaethol, effeithiol yn gofyn am gynllunio craff a chysondeb, rheolau clir a chadarn, clodfori cyson, yn ogystal â thasgau sy'n addas ar gyfer gallu'r disgybl er mwyn eu herio, ond nid tasgau syml ble na fydd y disgybl yn datblygu.

Yn wir, y mae'r pandemig COVID-19 wedi ein gorfodi fel darpar athrawon, dysgwyr ac addysgwyr i addasu ein ffyrdd o addysgu yng Nghymru. Mae'r syniadau o Ddysgu Cyfunol a Dysgu Wyneb i Waered wedi dod yn fwy poblogaidd (Fleischmann, K., 2021), gan ein bod, fel addysgwyr a darpar athrawon wedi gorfod addasu ein ffyrdd o weithio o adref, yn wahanol i'r ffordd traddodiadol o ddysgu ar lawr y dosbarth.

Nid yw wedi golygu newid a chreu tasgau gwahanol ar gyfer plant a phobl ifanc, ond yn hytrach, addasu ein dulliau, fel nad yw'n atal unrhyw un rhag llwyddo a chyrraedd eu potensial. Mae'r un i'w ddweud am ddilyn dull gwahaniaethol:

'Differentiation provides the teacher with a variety of techniques so that all children can access the curriculum and thereby facilitate cognitive development.' (Lever, 2014, t.28)

Mae bod ag agwedd adfyfyriol yn mynd law yn llaw gyda bod yn ddarpar athro yng Nghymru. Fel darpar athro, mae disgwyl imi ddefnyddio Pasbart Dysgu Proffesiynol (PDP) ar y cyd â'r safonau proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth (Llywodraeth Cymru, 2019).

Mae'r safonau proffesiynol ar gael er mwyn i athrawon ac addysgwyr ledled Cymru adfyfyrio ar eu harferion eu hunain. Mae yna disgrifyddion sydd yn cynnwys 'lefel uchelgeisiol' sy'n

gosod ffocws ar gyfer dysgu a datblygiad proffesiynol addysgwyr. Nodir disgrifydd ar arfer dda'r safon 'Gwahaniaethu' y gallwn anelu at gynnwys wrth adfyfrio ar y wers dan sylw:

'Mae gwahaniaethu yn soffistigedig iawn, i'r graddau lle mae'r dysgwyr yn cydnabod pam mae angen iddynt gael eu hymestyn neu eu cynorthwyo ac yn cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio profiad dysgu.' (Llywodraeth Cymru, 2019, t. 25)

Teimlaf wrth i'r disgyblion gael eu hymestun a'u cynorthwyo i gymryd rhan yn y gwaith y mae modd sicrhau eu bod yn datblygu'n 'cyfranwyr mentrus, creadigol' ac yn 'ddysgwyr uchelgeisiol' (Donaldson, 2015).

Yng ngolau hyn, felly, er mwyn sicrhau gwers llwyddiannus, ble mae pawb yn gwneud cynnydd ac yn cyrraedd eu potensial nhw, byddwn yn awgrymu'r syniadau isod er mwyn ysgogi'r dysgu mewn ffordd wahaniaethol o fewn y wers mathemateg ar werth lle:

- Cylchu'r dosbarth gan ofyn cwestiynau ar lafar
- Rhoi adborth llafar
- Gwneud defnydd helaeth o'r dechneg bownsio cwestiynau a chatau o gwmpas yr ystafell
- Gweithgareddau lle mae'r plant yn cael dewis eu tasg neu ffordd wahanol o gyflawni'r tasg
- Cwestiynu gwahaniaethol wedi'i teilwra ar gyfer y disgyblion – byddwn wedyn yn herio'r disgyblion wedyn i greu cwestiynau ar gyfer ei gilydd er mwyn arddangos bod ganddyn nhw ddealltwriaeth ar y dasg
- Gofyn i'r plant ddatblygu cwestiynau heriol am y pwnc dan sylw – edrych ar y cwestiynau fel dosbarth / par / yn unigol

Hoffwn bwysleisio mai awgrymiadau yn unig yw'r rhain ac nid beirniadaeth ar y wers ei hun yw hi. Mae'n rhaid imi ganmol y wers a arsylwyd, ond fel y nodwyd uchod, mae bod yn adfyfyriol yn rhan allweddol i addysgwr effeithiol, ac yn rhan o rôl yr ymarferydd adfyfyriol yng Nghymru a'r *Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth* (Llywodraeth Cymru, 2019).

Atodiadau (Arsylwadau Pontio PAP1)

ARSLYWAD / NODIADAU MAES

Cofnod 1

Dyddiad ac amser, grŵp blwyddyn:

Dyddiad: **22/09/2021**

Amser: **9:00 cychwyn – 10:00 >**

Dechrau arsylwi am 09:15 yn dilyn cyfarfod TP

Grŵp blwyddyn: **Bl.4**

Ble a phryd : Cyd-destun y digwyddiad – pwnc/MDaPh, cyd-destun cyffredinol y dosbarth

Ble a phryd:

- Gwers 1 yn y dosbarth ac yn y neuadd

Cyd-destun y digwyddiad

- MdaPh – Dyniaethau / Celfyddydau Mynegiannol
- Gwers iaith, thematig, gyda hanes Gelert y ci yn gyd-destun i'r dysgu

Beth ddigwyddodd – disgrifiad manwl (gorau po fwyaf y manylion er mwyn cyfeirio atynt yn ddiweddarach yn eich gwaith)

- Disgyblion newydd orffen y dasg ddechreuol – adalw gwybodaeth am hanes Gelert y ci a ddysgon nhw yn y wers blaenorol
- Cardiau fflach a peniau bwrdd gwyn wedi'i osod ar y byrddau
- **Tasg** – Labeli ansoddeiriau i ddisgrifio teimladau'r Tywysog Llywelyn
- Athro yn cyflwyno ar flaen y dosbarth, Cynorthwydd Dosbarth yn cylchu'r dosbarth

Sylwadau cyffredinol:

- Athro yn gyfeillgar, angerddol ac yn wybodus am stori Gelert
- Gwaith pâr (ansoddeiriau) - Tasg heriol ar gyfer y dosbarth ar y cyfan – rhai yn ei gweld yn sialens ac yn barod i'r her, ond rhai eraill yn ei gweld yn anodd, ac o ganlyniad, doedd pawb ddim ar dasg drwy gydol y wers. Rhai disgyblion yn troi i siarad.
- Rhai disgyblion ddim yn deall beth yw 'ansoddair' – CD yn cylchu ac yn helpu unigolion ddod o hyd i syniadau
- Athro yn siarad gyda rhai parau ac yn eu herio i feddlw am ansoddeiriau 'gwell' – e.e. yn lle grac, trist, mawr → bygythiol, torcalonnus, annifyr, anferth ayb.
- Athro yn annog rhai disgyblion
"beth sydd angen gwneud os nag ydyn ni'n gwybod beth yw gair?" → annog defnydd o eiriaduron a thesawrysau"
- Rhai disgyblion wedi colli natur y wers – nid oedd pawb felly wedi 'dysgu' a gwneud cynnydd
- Anodd gweld cynnydd y plant yn ystod y wers – tasg iaith yn syniad hyfryd, ond byddai wedi bod yn dda gweld y disgyblion yn creu brawddegau yn defnyddio eu ansoddeiriau. Byddai cyfle wedi bod wedyn i wthio'r dysgu ymhellach → gwella gwaith ei gilydd ayb.

Sylwadau eraill (critigol)

- Un merch yn tynnu lluniau a'r ferch nesaf iddi yn siglo ar goesau cefn ei chadair
→ athro yn dod â'r disgyblion i flaen y dosbarth i gael disgrifio eu cardiau fflach

• Yn syth, o flaen y dosbarth, doedd gan y merched ddim lle i guddio – penderfynwyd cymryd rhan. • Disgybl 2 wedi distewu wrth gymryd ei sedd, ond disgybl 1 yn parhau i darfu gan gwmpo yn ôl ar ei chadair fel petai hi am fynd i gysgu.
Meysydd y gellir eu harchwilio – yr hyn rydych chi’n meddwl allai fod “o dan y bonet” yn y digwyddiadau hyn • Herio disgyblion MATH • Rheoli Ymddygiad • Sgaffaldau fel techneg addysgeg • Gwahaniaethu • Asesu ar gyfer dysgu • Defnydd o Gynorthwydd Dysgu
Nodiadau – unrhyw fanylion y gallwch eu nodi (ydy e’n amgylchedd prysur, ydy e ar ôl cinio, oes yna lawer o wrthdynciadau, ydy cyfarwyddiadau’n glir – gorau po fwyaf y gallwch gyfeirio ato) • Amgylchedd dysgu syml ar y waliau – gwaith y disgyblion yn cael ei arddangos; poster yn dangos cod ymddygiad Ysgol Gyfun → paratoi ar gyfer symud i’r ysgol gyfun; • Dosbarth â ffenestri o’r nenfwd i’r llawr yn dangos golygfeydd hardd - atgyfnerthu’r dysgu → amgylchedd ‘heddychlon’ wrth gerdded i mewn i’r dosbarth • Rhai disgyblion yn gweld actio’n anodd – rhai’n llawn embaras ac yn gwrthod actio ‘fel y cymeriad’. Rhan fwyaf o’r disgyblion yn dilyn yn ôl eu ffrindiau

Cofnod 2

Dyddiad ac amser, grŵp blwyddyn: Dyddiad: 22/09/2021 Amser: 11:00 (<i>yn dilyn cyfnod egwyl</i>) Grŵp blwyddyn: BI.6
Ble a phryd : Cyd-destun y digwyddiad – pwnc/MDaPh, cyd-destun cyffredinol y dosbarth <u>Ble a phryd:</u> • Gwers yn dilyn amser egwyl mewn dosbarth yn yr Adran Iau <u>Cyd-destun y digwyddiad</u> • MdaPh – Rhifedd a Mathemateg • Gwers â ffocws ar Ddatblygu Sgiliau Rhif – Gwerth Lle
Beth ddigwyddodd – disgrifiad manwl (gorau po fwyaf y manylion er mwyn cyfeirio atynt yn ddiweddarach yn eich gwaith) • Cyfle i’r disgyblion tawelu yn dilyn amser egwyl • Athro yn defnyddio dewisydd ar hap ar Classcharts – ffordd wych i ddewis disgyblion > pawb yn gorfod gwrando’n astud rhag ofn iddynt gael eu dewis + ffordd dda i osgoi ‘dwylo i fyny’ • Tasg Ddechreuol – taflenni papurau o gwmpas y dosbarth, rhai gyda llythrennau arnynt, rhai gyda rhifau arnynt: e.e. D (i gynrychioli Degau), M (i gynrychioli Mil), C (i gynrychioli Cannoedd) ayb 7, 4, 3, 9 • Athro yn dweud rhif ar lafar – gofyn i’r disgyblion trefnu ei gilydd, e.e.

Tair mil chwe chant a phedwar deg dau (3642) [3=M, 6=C, 4=D, 2=U]
CM, DM, M, C, D, U

Canoedd, degau, unedau – gwaith grŵp o flaen y ddosbarth

- Tasg 1: Ffocws ar 'Gwerth Lle' → Beth yw gwerth y rhif _____?
Ysgrifennwch y rhif ar ffurf unedau, e.e
Tair mil, wyth cant a phum deg saith = 3852 fel unedau
- Tasg 2: Wyneb i waered → Ysgrifennwch y rhif fel geiriau, e.e. 785,219 =
Saith cant wyth deg pump mil dau gant ac un deg naw.

Sylwadau Cyffredinol:

- Dosbarth yn llawn bwrlwm a brwdfrydedd – barod i gymryd rhan
- Joio'r wers – ymarferol iawn. Lot o wenu, joio a gwaith tîm
- Dosbarth cystadleuol iawn yw hi. Dosbarth gallu cymysg/uchel
- Llawer o ddisgyblion MATH yn y dosbarth yn barod i herio'i gilydd + yr athro yn herio'r disgyblion ar lafar.
- Athro yn adnabod ei dosbarth yn dda!
- Naws gyfeillgar – 'nawr te, ffrindiau' – hyn i'w gweld ar draws yr ysgol gyfan
→ pawb yn rhan o'r un tîm
- Braf gweld dosbarth mor hyderus – rhai yn gofyn cwestiynau i gael 'tricio'i gilydd' yn gystadleuol
- Tasg ychwanegol (ar ffurf papur) ar gael i ddisgyblion a orffenwyd tasg y dosbarth (Taflen Waith ychwanegol ar 'Gwerth Lle' – yr un dasg ar gael i bawb)
- Disgyblion yn cystadlu yn erbyn ei gilydd i orffen yn gyflym.
Rhai disgyblion yn rhuthro drwy'r dasg, yna'n cwblhau'r taflen waith ychwanegol, ac yna'n cychwyn ar Dasgau Ychwanegol, '*Tasgau Tsili*' (yn annibynnol)
Disgybl yn dewis lefel her y dasg:
Tsili 1 – Mwyn ; 2 = Canolig; 3 = Poeth; 4 = Crasboeth
→ nid oedd y tasgau tsili'n seiliedig ar ffocws y wers, sef 'gwerth lle' ond yn cynnwys tasgau 'cyffredinol' Mathemateg a Rhifedd

Sylwadau Eraill (Digwyddiad Critigol):

- Sylwais ar un disgybl oedd yn dechrau tarfu ar y wers → athro yn gwbl nabod ei dosbarth yn dda.
- Disgybl yn cael trafferth yn cwblhau'r dasg ysgrifenedig – dim ond hanner y dasg yma roedd y disgybl yn gallu cwblhau pan oedd rhai eraill yn rhuthro heb drafferth.
- Yn lle gadael y disgybl i boeni, cafodd ei glodfori am lwyddo ar y dasg, gan ofyn i'r disgybl "*siarad â'r grŵp drwy'r dasg*", a sut aeth ati i gyrraedd y pwynt hynny > rhoi cyfle i'r disgybl siarad gyda'i grŵp.
- Yna, daeth yr athro'r wers i stop gan weiddi 'rhewch' – pawb wedi hen arfer â stopio gan ollwng eu peniau a chanolbwyntio'n syth ar olwg yr athro.
- Cyfle i'r dosbarth ddod at ei gilydd i drafod problem ar lafar.
Gofynodd yr athro i'r disgybl siarad gyda'r dosbarth cyfan a gweld sut oedden nhw'n gallu parhau gyda ateb llawn y dasg – drwy fownsio camau'r ateb o gwmpas y dosbarth.
- Ni fydd y ffordd yma'n gweithio ar gyfer pawb → bydd rhai disgyblion yn emaras neu ddim â hyder i siarad o flaen y dosbarth.
- Cododd hyder y disgybl gan weiddi "roeddwn i yn gywir!" yn ei ffordd o weithio mas yr ateb. Siaradaid â'r disgybl a datgelodd roedd yn poeni cael yr ateb yn anghywir yn ei grŵp achos bod y grŵp yn gweld y dasg mor hawdd.
- Erbyn diwedd y wers roedd yn amlwg fod bron i bawb wedi deall y tasgau ac wedi llwyddo gorffen y tasgau a osodwyd.
- Ddim yn teimlo fod pawb wedi cael eu herio digon – rhai yn ddiflas ar ôl cwblhau'r holl

daflenni gwaith ychwanegol. • Cyfle tro nesaf wahaniaethu'r tasgau yma er mwyn gwrthio'r disgyblion MATH ymhellach.
Meysydd y gellir eu harchwilio – yr hyn rydych chi'n meddwl allai fod "o dan y bonet" yn y digwyddiadau hyn • Asesu ffurfiannol • Asesu ar gyfer dysgu • Herio disgyblion MATH • Gwahaniaethu effeithiol • A yw cystadlu yn effeithio ar les disgyblion?
Nodiadau – unrhyw fanylion y gallwch eu nodi (ydy e'n amgylchedd prysur, ydy e ar ôl cinio, oes yna lawer o wrthdynciadau, ydy cyfarwyddiadau'n glir – gorau po fwyaf y gallwch gyfeirio ato) • Gwers yn dilyn amser egwyl - amgylchedd byrlymus • Amgylchedd dysgu brwdfrydig, cyfeillgar • Roedd cyfarwyddiadau'r athro'n glir – mae'r disgyblion yn amlwg yn parchu'r athro ac wedi hen arfer ar ei ffyrdd o rheoli'r dosbarth, e.e. 'Rhewch' = pawb yn stopio beth maen nhw'n gwneud ac yn troi i wynebu ffrynt y dosbarth ayb. • Disgyblion yn mwynhau gwersi rhifedd a mathemateg ar y cyfan – natur y dosbarth yn mwynhau'r elfen gystadleuol → Pwyntiau 'Classcharts' – syniad o wobrwyo'n atgyfnerthu a gwrthio'r cystadlu • Rhwystrau COVID-19 – gwers yn cychwyn braidd yn hwyr gan fod angen i bob disgybl olchi eu dwylo wrth ddod i mewn i'r dosbarth

Cofnod 3

Dyddiad ac amser, grŵp blwyddyn: Dyddiad: 23/09/21 Amser: 9:00 Grŵp blwyddyn: Bl.3
Ble a phryd : Cyd-destun y digwyddiad – pwnc/MDaPh, cyd-destun cyffredinol y dosbarth Ble a phryd: • Gwers 1 – y neuadd, yna dychwelyd i'r ystafell ddosbarth Cyd-destun y digwyddiad • Gwers Ymarfer Corff – ffocws 'gweithio fel tîm'. • Dosbarth gallu cymysg – 27 o blant (<i>cymysgedd o fechgyn/merched</i>) • Nod y wers: - gweithio fel tîm yn gystadleuol ac adnabod sut mae ymarfer corff yn ddiogel
Beth ddigwyddodd – disgrifiad manwl (gorau po fwyaf y manylion er mwyn cyfeirio atynt yn ddiweddarach yn eich gwaith) • Tasg Ddechreuol – Twymo lan. Cofleidio, yna roedd yn rhaid i'r disgyblion teithio o gwmpas y neuadd mewn gwahanol ffyrdd gan ddilyn cyfarwyddiadau. Roedd yn bwysig i'r disgyblion beidio â chyffwrdd a'i gilydd wrth deithio. • Rhoddodd yr athro rhif iddyn nhw, 1-6 – gofyn i'r disgyblion wrando ar gyfarwyddiadau, e.e. ffurfio chwe llinell; dau grŵp – odrifau / eilrifau; 1 a 3, 2 a 5, 4 a 6. • Roedd y disgyblion ar dân yn rhuthro ac yn amlwg yn mwynhau'r dasg ddechreuol –

roedd rhai wedi gwneud y dasg yma o'r blaen ac yn esbonio'r dasg i'w gilydd

- Gan taw gwers 1 oedd hi, roedd y plant yn awyddus i ymuno mewn gyda'i gilydd ac yn llawn egni
- Gan fod yna bron i dri deg o blant, roedd rheoli ymddygiad yr athro'n bwysig er mwyn cael sylw a sicrhau rheolaeth. Roedd yn hawdd iawn i ambell ddisgybl cael eu cynhyrfu a dechrau tarfu.
- Rheolaeth ymddygiad da gan yr athro
- 2il dasg – Relay yn y neuadd.
 - Ochr gamu – ar y chwiban.
 - Naid broga – roedd cadw balans y plant + cadw cefnau'n syth yn bwysig
- Roedd rhai disgyblion yn tueddol o ddisgyn + yn symud a throï i'r chwith gan fod y dasg yn anodd
- I orffen gwelais gyfres o ymarferion corff cyflym (sgipio, symud dim ond ar eu pen-ôl ayb), cyn i bawb cael cyfle i ymdawelu ac ymlacio
- Diddorol oedd y wers – roedd yn braf gweld disgyblion o bob lefel ffitrwydd yn barod i gymryd rhan yn hyderus heb ofni methu.

Sylwadau Eraill (Digwyddiad Critigol):

- Roedd un disgybl wedi gweld yr holl dasgau yn anodd. Dywedodd nad oedd yn ffit iawn. Roeddwn i wedi synnu braidd yn gweld disgybl ym ml.3 yn poeni cymaint nad oedd mor ffit a'i ffrindiau.
- Er hynny, nid oedd y disgybl am roi'r ffidil yn y to – roedd yn rhaid imi ganmol dygnwch y disgybl a ddyfalbarhaodd er iddynt ymddangos yn goch iawn a gweld y tasgau'n anodd!
- Derbyniodd nifer o ddisgyblion, gan gynnwys y disgybl dan sylw, pwyntiau clod ar 'Classcharts' am eu gwaith caled.

Meysydd y gellir eu harchwilio – yr hyn rydych chi'n meddwl allai fod "o dan y bonet" yn y digwyddiadau hyn

- Rheoli ymddygiad
- Gwahaniaethu effeithiol
- Dysgu trawsgwricwlaidd – Llythrennedd a Rhifedd wrth wneud ymarfer corff
- Defnyddio TGCh + Ymarfer Corff – astudiaeth posib?
- Codi hyder disgyblion – ffocws ar iechyd meddwl a lles
- Cadw'n iach – ffitrwydd disgyblion yn gwella ei iechyd meddwl

Nodiadau – unrhyw fanylion y gallwch eu nodi (ydy e'n amgylchedd prysur, ydy e ar ôl cinio, oes yna lawer o wrthdynciadau, ydy cyfarwyddiadau'n glir – gorau po fwyaf y gallwch gyfeirio ato)

- Awyrgylch byrlymus – neuadd mawr > adlais yr athro.
- Hawdd iawn colli rheolaeth y disgyblion mewn neuadd mor fawr.
- Rheolaeth ymddygiad yn dda gan yr athro. Profiadol iawn.
- Rhwystrau COVID-19 – disgyblion yn gorfod golchi eu dwylo cyn ac ar ôl y sesiwn ymarfer corff → disgyblion wedi arfer â'r trefniadau COVID-19

Rhestr Gyfeiriadau:

Bishop, C. (2021). *Winning isn't everything – Why too much competition is bad for schools and students*. Ar gael ar: <https://www.teachwire.net/news/winning-isnt-everything-why-too-much-competition-is-bad-for-schools-and-students> (Cyrchwyd ar 20 Hydref 2021)

Bellis, M.A., Ashton, K., Hughes, K., Ford, K.J., Bishop, J. a Paranjothy, S., (2016). *Adverse childhood experiences and their impact on health-harming behaviours in the Welsh adult population*. Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

British Educational Research Association [BERA] (2018). *Ethical Guidelines for Educational Research*, fourth edition, London.

Ar gael ar: <https://www.bera.ac.uk/researchers-resources/publications/ethical-guidelines-for-educational-research-2018> (cyrchwyd ar 22 Hydref 2021)

Christensen J. (2016). A Critical Reflection of Bronfenbrenner's Development Ecology Model. *Problems of Education in the 21st Century*. Vol.69. t.23-28

Donaldson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Estyn (2016). *Adroddiad Estyn – Ysgol X*. Caerdydd: Estyn

Fleischmann, K., 2021. Hands-on versus virtual: Reshaping the design classroom with blended learning. *Arts and Humanities in Higher Education*, 20(1), t.87-104.

Fy Ysgol Leol. (2021). *Canlyniadau Ysgol X*. Ar gael ar: <https://mylocalschool.gov.wales/School/> [REDACTED] (cyrchwyd ar 15 Hydref 2021)

Hattie, J., & Yates, G. C. (2013). *Visible learning and the science of how we learn*. Routledge.

Holt, J. (1967). *How Children Learn [by] John Holt*. Efrog Newydd: Pitman Pub. Corp.

Lever, C. (2014). *Understanding Challenging Behaviour in Inclusive Classrooms*. Hoboken: Taylor and Francis, t.12-32

Llywodraeth Cymru. (2014). *Cymwys am oes: Cynllun gwella addysg ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*. Caerdydd: Llyw. Cymru

Llywodraeth Cymru. (2015). *Cymwys am oes – Cwricwlwm i Gymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru. (2017). *Addysg yng Nghymru: Ein Cenhadaeth Genedlaethol, Cynllun Gweithredu 2017-2021*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru. (2017). *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru. (2019). *Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru. (2019). *Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth*. Ar gael ar: <https://www.gwegogledd.cymru/wp-content/uploads/2020/07/6.-professional-standards-pdf-cy.pdf> (cyrchwyd ar 29 Medi 2021)

Llywodraeth Cymru. (2020). *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Naghieh, A., Montgomery, P., Bonell, C.P., Thompson, M. and Aber, J.L. (2015). Organisational interventions for improving wellbeing and reducing work-related stress in teachers. *Cochrane Database of Systematic Reviews*. Ar gael ar: <https://doi.org/10.1002/14651858.CD010306.pub2> (cyrchwyd ar 20 Hydref 2021)

OECD, A. (2014). *Improving Schools in Wales*. Ar gael ar: <https://www.oecd.org/education/Improving-schools-in-Wales.pdf> (cyrchwyd ar 18 Hydref 2021)

Parsonson, S. (2012). *Evidence-based Classroom Behaviour Management Strategies*. Ministry of Education: Special Education, Hawkes Bay Region

Roberts-Holmes, G.P. a Bradbury, A., (2016) "They are children... not robots, not machines": The introduction of Reception baseline assessment. Ar gael ar: http://www.betterwithoutbaseline.org.uk/uploads/2/0/3/8/20381265/baseline_assessment_2.2.16-10404.pdf (cyrchwyd ar 4 Hydref 2021)

Rogoff, B. (2003) *The Cultural Nature of Human Development*. Oxford: Oxford University Press

Rosenshine, B., (2012). Principles of instruction: Research-based strategies that all teachers should know. *American educator*, 36(1), t.12-14

Tomlinson, C. A. (1999). *The differentiated classroom: Responding to the needs of all learners*. Alexandria: Ascd

Willis, D.A. (2014). Why learning is like climbing a mountain. Ar gael ar: <http://alisonwillis.org/why-learning-is-like-climbing-a-mountain/> (Cyrchwyd ar 9 Hydref 2021)

Ysgol X. (2020) *Prosbectws Ysgol X*. Ar gael ar wefan Ysgol X.